Fab

Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga

Dydd Mawrth, 19 Gorffennaf 2022

Dear Cynghorwyr,

**CABINET**

Gofynnir i chi fynychu cyfarfod **Cabinet** a gynhelir yn **Conference Room - Usk, NP15 1AD** ar **Dydd Mercher, 27ain Gorffennaf, 2022,** am **5.00 pm.**

**AGENDA**

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

2. Datganiadau o Fuddiant

3. 2021/22 DATGANIAD ALLDRO REFENIEW A CHYFALAF — 1 - 52

   Is-Adran/Wardiau yr Effeithir Arnynt: Pob Un

   Diben: Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth i Aelodau ar ganlyniadau'r Awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 o ran y gyllideb refeniw, y rhaglen gyfalaf a'r arian wrth gefn.

   Awdur: Jonathan Davies, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol (Dirprwy Swyddog A151)

   Manylion Cyswllt: Jonathandavies2@monmouthshire.gov.uk

4. STRATEGAETH RHAGLEN CYMORTH TAI 2022-26 — 53 - 240

   Is-Adran/Wardiau yr Effeithir Arnynt: Pob Un

   Diben: Cymeradwyo a mabwysiadu'r Strategaeth Cymorth Tai arfaethedig ar gyfer 2022-26 a'r dogfennau cyswllt, fel sydd angen gan Lywodraeth Cymru.

   Awdur: Ian Bakewell, Rheolwr Tai a Chymunedau

   Manylion Cyswllt: ianbakewell@monmouthshire.gov.uk

5. DIWEDDARIAD AR GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU - CYNLLUN BUDDSODDI ALLANOL/CLUSTNODI CYLLID YN SIR FYNWY — 241 - 262

   Is-Adran/Wardiau yr Effeithir Arnynt: Pob Un

   Diben: Diweddaru'r Cabinet ar gynnydd Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU

(UK SPF) fel rhan o Raglen Ffyniant Bro Llywodraeth y DU a'n gofyn am gymeradwyaeth i weithredu'r argymhellion sydd yn dilyn.

Awdur: Frances O'Brien, Prif Swyddog Mentergarwch

Manylion Cyswllt: francesobrien@monmouthshire.gov.uk

6. ASESIAD O DDIGONOLRWYDD CYFLEOEDD CHWARAE 2022 A'R CYNLLUN GWEITHREDU CHWARAE — 263 - 354

Is-Adran/Wardiau yr Effeithir Arnynt: Pob Un

Diben: Cymeradwyo'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r Cynllun Gweithredu fel sydd wedi eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau statudol, sef 30ain Mehefin 2022.

Awdur: Matthew Lewis, Rheolwr Amgylchedd a Diwylliant
Mike Moran, Cydlynydd Seilwaith Cymunedol

Manylion Cyswllt: matthewlewis@monmouthshire.gov.uk
mikemoran@monmouthshire.gov.uk

7. CYLLID A CHYFLENWI ADFYWIO — 355 - 384

Is-Adran/Wardiau yr Effeithir Arnynt: Y FENNI, CIL-Y-COED, CAS-GWENT, MAGWYR, BRYNBUGA

Diben: Mae uchelgais y Cyngor ar gyfer gweithgarwch adfywio, ac uchelgais y cymunedau y mae'n eu cynrychioli, yn fwy o lawer na'r adnoddau a'r cyllid sydd ar gael i gyflenwi pob dim, ac felly, mae angen penderfynu ar flaenoriaethau a dilyniant. Pwrpas yr adroddiad yw gwahodd y Cabinet i gytuno ar y pecyn dangosol o'r prosiectau ar gyfer y Grantiau Creu Lleoedd (a fydd yn ffurfio rhan o'r cynnig ar gyfer grant Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru ar gyfer y tair blynedd nesaf) a chytuno ar ddatblygu 'Cynlluniau Creu Lle' ar gyfer Trefynwy, Magwyr a'r Fenni. Cynigir bod penderfyniad ar y prosiectau strategol yn cael ei oedi tan Hydref 2022, gan y bydd y Cyngor erbyn hyn wedi derbyn penderfyniad ar y ceisiadau sydd wedi eu cyflwyno am arian o'r Gronfa Ffyniant Bro.

Awdur: Mark Hand, Pennaeth Creu Lleoedd, Priffyrdd a Llifogydd
Daniel Fordham, Rheolwr Adfywio

Manylion Cyswllt: markhand@monmouthshire.gov.uk
danielfordham@monmouthshire.gov.uk

8. POLISI CLUDIANT RHWNG Y CARTREF A'R YSGOL DRAFFT 2023/24 — 385 - 416

Is-Adran/Wardiau yr Effeithir Arnynt: Pob Un

Diben: Mae'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn amlinellu'r cyfrifoldebau cyfreithiol ar gyfer darparu cludiant ysgol. O fewn y ddeddfwriaeth, mae'n

gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i adolygu eu polisi cludiant yn flynyddol.

Mae angen cadarnhau'r polisi yma erbyn 1af Hydref er mwyn medru ei weithredu ar gyfer y flwyddyn academaidd ddilynol.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Polisi Cludiant arfaethedig ar gyfer 23-24 ac yn gofyn i Aelodau i'w gymeradwyo er mwyn cynnal ymgynghoriad. Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i Aelodau ym mis Medi yn dilyn adolygiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Awdur: Debra Hill-Howells, Pennaeth Gwasanaethau Datgarboneiddio, Cludiant a Chymorth

Manylion Cyswllt: Debrahill-howells@monmouthshire.gov.uk

9. ADRODDIAD MUCH (HYBIAU CYMUNEDOL MAGWYR A GWNDY) 417 - 466

Is-Adran/Wardiau yr Effeithir Arnynt: Dwyrain Magwyr a Gwndy, Gorllewin Magwyr

Diben: Gofyn am gymeradwyaeth i adeiladu hyb cymunedol newydd aer y safle a adwaenir fel y 'Three Fields' ym Magwyr a Gwndy.

Cytuno ar brydles hirdymor gyda'r Grŵp Cymunedol 'MUCH' ar gyfer meddiannu a rheoli'r safle

Awdur: Nicholas Keyse – Rheolwr Datblygu Ystadau

Manylion Cyswllt: nicholaskeyse@monmouthshire.gov.uk

10. CYNLLUN DYFODOL PENTREFI DYFFRYN GWY 467 - 734

Is-Adran/Wardiau yr Effeithir Arnynt: CC Trylech, CC Dyfawden, CC Dyffryn Gwy, CC St Arvans

Diben: Pwrpas yr adroddiad hwn yw briffio'r Cabinet ar y cefndir i'r Cynllun Dyfodol Pentrefi Dyffryn Gwy sydd wedi ei baratoi ar y cyd, sut y mae'r prosiect o bosib yn mynd i ddatblygu wrth symud ymlaen a gofyn am gytundeb y Cabinet i fabwysiadu'r Cynllun er mwyn llywio gweithgareddau a phenderfyniadau yn y dyfodol. Y bwriad yw bod yr holl bartïon (cynghorau cymuned, swyddfa Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy a Chyngor Sir Fynwy) yn mabwysiadu'r Cynllun. Os caiff ei fabwysiadu, bydd grŵp cyflenwi yn cael ei sefydlu.

Awdur: Mark Hand, Pennaeth Creu Lleoedd, Priffyrdd a Llifogydd
Daniel Fordham, Rheolwr Adfywio

Manylion Cyswllt: Markhand@monmouthshire.gov.uk
danielfordham@monmouthshire.gov.uk

11. AIL-AGOR STRYD FAWR CAS-GWENT I DRAFFIG CERBYDOL 735 - 774

Is-Adran/Wardiau yr Effeithir Arnynt: Cas-gwent

Diben: Pwrpas yr adroddiad yw gwahodd y Cabinet i benderfynu a ddylid dileu’r Gorchymyn Arbrofol sydd yn gau'r Stryd Fawr yng Nghas-gwent i draffig ac eithrio'r sawl sydd yn meddu ar Fathodynnau Glas a’n defnyddio’r mannau parcio ar Stryd y Banc ac unrhyw fusnesau sydd yn derbyn nwyddau rhwng 4pm a 10am. Byddai dileu’r Gorchymyn yn ail-agor y Stryd Fawr i’r holl draffig cerbydol, yn union fel y trefniadau cyn y pandemig.

Awdur: Mark Hand, Pennaeth Creu Lleoedd, Priffyrdd a Llifogydd

Manylion Cyswllt: markhand@monmouthshire.gov.uk

Yours sincerely,

**Paul Matthews**
**Chief Executive**

monmouthshire
sir fynwy

**PORTFFOLIOS CABINET**

| **Cynghorydd Sir** | **Maes Cyfrifoldeb** | **Ward** |
|---|---|---|
| Mary Ann Brocklesby | **Arweinydd**<br>Swyddogion Arweiniol – Paul Matthews, Matthew Gatehouse<br><br>Stratgaeth a Chyfeiriad yr Awdurdod Cyfan<br>Adolygiad a gwerthusiad o berfformiad yr Awdurdod Cyfan<br>Cabinet Cyfun Prifddinas-Ranbarth Caerdydd<br>Gweithio rhanbarthol<br>Perthynas gyda'r Llywodraeth<br>CLlLIC, LGA a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Llanelly |
| Paul Griffiths | **Aelod Cabinet ar gyfer Economi Gynaliadwy a'r Dirprwy Arweinydd**<br>Swyddog Arweiniol – Frances O'Brien<br><br>Dygnwch economaidd a ffocws ar Gynaliadwyedd gan weithio tuag at economi sylfaenol<br>Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Datblygu Strategol<br>Buddsoddi a Stiwardiaeth o ran Canol Trefi a Chymdogaethau<br>Rheoli Datblygu a Rheoli Adeiladu<br>Sgiliau a Chyflogaeth gan gynnwys swyddi gwyrdd a phrentisiaethau<br>Bandeang<br>Safonau masnach, Iechyd Amgylcheddol, Iechyd Cyhoeddus, Trwyddedi | Chepstow Castle & Larkfield |
| Rachel Garrick | **Aelod Cabinet ar gyfer Adnoddau**<br>Swyddogion Arweiniol – Peter Davies, Frances O'Brien, Matthew Phillips, Jane Rodgers<br><br>Cyllid<br>Datblygu a chynnig y gyllideb i'r Cyngor<br>Technoleg ddigidol a technoleg gwybodaeth<br>Adnoddau Dynol, y Gyflogres, Iechyd a Diogelwch<br>Caffael Strategol – hyrwyddo lleoliaeth<br>Tir ac Adeiladau<br>Cynnal a chadw a rheoli eiddo<br>Rheoli'r Fflyd<br>Cynllunio Brys/Argyfwng | Castell Cil-y-coed |

| | | |
|---|---|---|
| Martyn Groucutt | **Aelod Cabinet ar gyfer Addysg**<br>Swyddogion Arweiniol – Will McLean, Ian Saunders<br><br>Addysg Blynyddoedd Cynnar<br>Addysg statudol ar gyfer pob oedran<br>Anghenon dysgu ychwnageol / Cynhwysiant<br>Addysg ôl-16 ac addysg oedolion<br>Safonau a Gwelliannau Ysgolion<br>Dysgu Cymunedol<br>Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain<br>Gwasanaethau Ieuenctid | Lansdown |
| Sara Burch | **Aelod Cabinet ar gyfer Cymunedau Cynhwysol a Byw**<br>Swyddogion Arweiniol – Frances O'Brien, Ian Saunders, Jane Rodgers, Matthew Gatehouse<br><br>Strategaeth Tai Fforddiadwy<br>Digartrefedd<br>Diogelwch Cymunedol<br>Teithio Llesol<br>Canolfannau Hamdden<br>Chwarae a Chwaraeon<br>Gwybodaeth i Dwristiaid, Amgueddfeydd, Theatrau ac Atyniadau | Cantref |
| Tudor Thomas | **Aelod Cabinet ar gyfer Gofal Cymdeithasol, Diogelu a Gwasanaethau Iechyd Hygyrch**<br>Swyddog Arweiniol – Jane Rodgers<br><br>Gwasanaethau Plant<br>Maethu a mabwysiadu<br>Gwasanaethau Troseddu Ieuenctid<br>Gwasanaethau Oedolion<br>Diogelu ar draws yr Awdurdod Cyfan (plant ac oedolion)<br>Anableddau<br>Iechyd meddwl a llesiant<br>Perthynas gyda'r darparwyr iechyd a mynediad at ddarpariaeth iechyd | Park |
| Catrin Maby | **Aelod Cabinet ar gyfer Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd**<br>Swyddogion Arweiniol – Frances O'Brien, Matthew Gatehouse<br><br>Datgarboneiddio<br>Cynllunio Trafnidiaeth<br>Cynhyrchu bwyta a chaffael bwyd lleol gan gynnwys amaeth-goedwigaeth a garddwriaeth leol<br>Cynllunio'r rhwydwaith traffig<br>Trafnidiaeth Gyhoeddus<br>Priffyrdd gan gynnwys cefnffyrdd<br>Palmentydd a'r lonydd cefn | Drybridge |

| | | |
|---|---|---|
| | Lliniaru rheoli ac adferiad yn dilyn llifogydd, ansawdd dŵr afonydd<br>Rheoli gwastraff<br>Gofalu am y strydoedd, sbwriel a mannau cyhoeddus<br>Cefn gwlad, Bioamrywiaeth a hawliau tramwy cyhoeddus gan gynnwys parciau a mannau agored<br>Cyfleusterau Cyhoeddus | |
| Catherine Fookes | **Aelod Cabinet ar gyfer Cydraddoldeb ac Ymgysylltu**<br><br>Swyddogion Arweiniol – Frances O'Brien, Matt Phillips, Matthew Gatehouse<br><br>Anghydraddoldeb cymunedol (iechyd, incwm, maetheg, anfantais, gwahaniaethu, arwahanrwydd)<br>Budd-daliadau<br>Yr iaith Gymraeg<br>Hyrwyddo democratiaeth ac ymgysylltu dinasyddion<br>Hybiau Cymunedol a'r Canolfan Gyswllt<br>Gwasanaethau i gwsmeriaid a phrofiadau dinasyddio<br>Cyfathrebu, cysylltiadau cyhoeddus, marchnata<br>Gweithio gyda mudiadau gwirfoddol<br>Gwasanaeth Cofrestryddion<br>Gwasanaethau Etholiadol<br>Adolygu'r Cyfansoddiad<br>Moeseg a Safonau | Y Dref |

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

## Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

**Amcanion y gweithiwn tuag atynt**

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

## Ein Gwerthoedd

**Bod yn agored**. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

**Tegwch**. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

**Hyblygrwydd**. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

**Gwaith Tîm**. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatryswyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

**Caredigrwydd** – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a’r cysylltiadau sydd gennym â’n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.